

Arholiadau Aelodaeth Gyflawn 18 Ebrill 2026

Adroddiad Cyffredinol

Y diffiniad o Aelodaeth Gyflawn:

Mae safon Aelodaeth Gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar y cyfieithydd angen unrhyw oruchwyliaeth. Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu cyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Tud. 2

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Tud. 8

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 10
Llwyddo: 1

Er mai dim ond un ymgeisydd lwyddodd ar y lefel Cyflawn y tro hwn, roedd sawl ymgeisydd arall yn ffiniol ac yn agos ati. Fodd bynnag, disgwylir na ddylai fod angen diwygio na chywiro'r cyfieithiadau ar y lefel hon ac felly roedd gwallau esgeulus a mynegiant lletchwith yn golygu nad oedd pob darn yn cyrraedd y safon dderbyniol. Dyma'r tro cyntaf i'r arholiad hwn gynnwys darn oedd wedi'i gyfieithu drwy ddeallusrwydd artiffisial. Bu'n rhaid i'r ymgeiswyr olygu'r darn hwn a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol er mwyn iddo ddarllen fel darn cywir a naturiol. Mae golygu darnau fel hyn yn rhan o waith llawer o gyfieithwyr erbyn hyn ac felly mae'n sgil hanfodol i'w meistrolï. Mae ymgeiswyr sy'n sefyll yr arholiad Cyflawn hefyd yn cael darn gwaith cartref i'w gyfieithu gartref cyn yr arholiad. Cyflwynwyd cyfieithiadau o safon yn y darn gwaith cartref ond siom oedd gweld rhai gwallau'n brigo a oedd yn golygu bod rhai wedi colli cyfle i ddangos eu gwaith gorau posibl.

Roedd y darn cyntaf yn yr arholiad yn trafod trwmgwsg ac roedd y darn gwaith cartref yn erthygl am ddull magu plant o'r enw '*gentle parenting*'. Er bod y darn cyntaf yn eithaf technegol mewn mannau, llwyddodd sawl un i ymdopi ag idiomau a chyflwyno cyfieithiadau naturiol a chywir. Er enghraifft:

Not all sleep is created equal...

Nid yw pob math o gwsg yr un fath...

When it comes to feeling truly rested, deep sleep does the heavy lifting.

...o ran dadflino'n llwyr, trwmgwsg sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf.

Without knowing an exact time, it may help to focus on how you feel in the morning and throughout the day.

Heb wybod union amser, gall fod o gymorth canolbwyntio ar sut rydych yn teimlo yn y bore a thrwy gydol y dydd.

Roedd enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus a medrus yn y darn gwaith cartref hefyd, megis:

Gentle parenting acknowledges children's emotions, respecting their thoughts and ensuring that consistent boundaries are in place.

Mae rhianta tyner yn cydnabod emosiynau plant, gan barchu eu meddyliau a sicrhau bod ffiniau cyson ar waith.

We constantly see parents allowing their children to make their own decisions, with inappropriate choices going unchallenged.

Rydym byth a beunydd yn gweld rhieni yn caniatáu i'w plant wneud eu penderfyniadau eu hunain, heb herio unrhyw ddewisiadau amhriodol

But it also means that children are badly prepared for primary school and their future lives.

Ond mae hefyd yn golygu fod plant ymhell o fod yn barod i'r ysgol gynradd a'u bywydau yn y dyfodol.

Yn yr enghreifftiau uchod, mae'r mynegiant yn glir ac yn naturiol, ond yn anffodus roedd rhai o'r cyfieithiadau eraill yn rhy llythrennol. Er enghraifft:

...and when it comes to feeling truly rested...

...a phan ddaw i deimlo fel eich bod wedi dadflino...

...even a full night's sleep can leave you feeling groggy...

Gall hyd yn oed noson gyflawn o gwsg eich gadael yn teimlo'n ddi-fynd...

To figure out how much deep sleep you need...

I weithio allan faint o drwmgwsg sydd ei angen arnoch...

Nodwyd hefyd fod sawl ymgeisydd wedi osgoi'r gair 'cyfanswm' i gyfleu 'total' yn y frawddeg ganlynol:

Once you have a number for your total sleep time...

Cafwyd sawl cynnig gwahanol yn lle'r gair 'cyfanswm' gan arwain at gystrawen drwsogl, ac ystyr anghywir weithiau. Er enghraifft:

Ar ôl amcangyfrif eich amser cwsig cyflawn...

Pan fyddwch wedi cyfrifo eich amser cysgu cyfan...

Unwaith y byddwch yn gwybod faint o oriau yr ydych yn cysgu...

Disgwylir bod ymgeiswyr ar y lefel hon yn gallu llunio brawddegau cadarn gan ddefnyddio cystrawen gywir ond cafwyd enghreifftiau o gystrawen wallus fel a ganlyn:

...with inappropriate choices going unchallenged.

...a ddim yn herio dewisiadau amhriodol.

...be emotionally below expected levels for their age.

...dangos lefelau emosiynol is na ddisgwylir am eu hoedran.

Most adults should aim for at least seven hours of sleep each night.

Nod y rhan fwyaf o oedolion dylai cael o leiaf saith awr o gwsig bob nos.

Mewn rhai mannau eraill, roedd y cyfieithiad yn swnio'n chwithig oherwydd bod y termau neu'r geiriau anghywir wedi'u dewis, fel '**rhianta goddefol**' (*gentle parenting*),

'tueddiadau' (*trends ym maes y cyfryngau cymdeithasol*) a '**swyddogaeth yr ymennydd**' (*brain function*). Mae'r termau anaddas hyn yn newid yr ystyr. Hefyd mae'n amlwg bod rhai'n ansicr ynghylch y gwahaniaeth rhwng '*dydd*' a '*diwrnod*' yn yr ymadrodd '*throughout the day*'. Gan fod hyn yn cyfeirio at gyfnod o amser, '*dydd*' sy'n gywir. Yn y darn gwaith cartref, roedd rhai'n drysu rhwng '*pan*' a '*pryd*' yn y frawddeg ganlynol:

...when, in fact, they should be given clear, sensible options.

...pan, mewn gwirionedd, y dylid rhoi dewisiadau clir, call iddynt.

...pryd, mewn gwirionedd, y dylent gael dewisiadau clir a synhwyrol.

...pan y dylid, mewn gwirionedd, roi dewisiadau clir a chall iddynt.

Yn y frawddeg uchod, rhaid defnyddio ‘*pan*’ gan fod ‘*pryd*’ fel arfer yn cael ei ddefnyddio i ofyn cwestiwn. Hefyd berf sy’n dilyn ‘*pan*’ bob amser, felly ‘*pan ddylid*’ yw’r cyfieithiad cywir.

Fel y disgwylir ar y lefel hon, roedd y darnau’n eithaf glân ond cafwyd rhai gwallau sillafu a threiglo, megis ‘*pe bae*’, ‘*pan mai’n bwrw glaw*’, a ‘*neu banana*’. Rhaid nodi hefyd fod un ymgeisydd wedi hepgor brawddeg gyfan wrth gyfieithu. Mae’r rhain i gyd yn wallau a fyddai wedi cael eu cywiro petai’r ymgeiswyr wedi treulio digon o amser yn prawfddarllen eu gwaith cyn ei gyflwyno.

Wrth droi at y darn deallusrwydd artifisial (DA) am ddull arbennig o dynnu lluniau, yr her sylfaenol wrth olygu’r darn oedd gwybod pryd i gywiro ac addasu’r cyfieithiad a phryd i ymatal rhag gwneud hynny. Digon anodd yw taro’r cydbwysedd iawn ond llwyddodd sawl ymgeisydd i wella’r cyfieithiad yn effeithiol. Er enghraifft:

Not for something to happen, but for everything to stop happening.

Nid am i rywbeth ddigwydd, ond am i bopeth roi’r gorau i ddigwydd. (cyfieithiad DA)

Nid i rywbeth ddigwydd, ond i bethau ddod i ben.

And what remains, stripped of its noise and clutter, is something closer to feeling than fact.

A’r hyn sy’n weddill, wedi ei ddadstripio o’i sŵn a’i annibendod, yw rhywbeth sy’n nes at deimlad nag at ffaith. (cyfieithiad DA)

A’r hyn sy’n weddill, heb ei sŵn a’i flerwch, yw rhywbeth sy’n nes at deimlad na ffaith.

A line of trees in Hokkaido dissolves into white.

Mae rhes o goed yn Hokkaido yn toddi i wyn. (cyfieithiad DA)

Mae rhes o goed yn Hokkaido yn pylu.

Nid oedd rhai ymgeiswyr eraill mor llwyddiannus yn hyn o beth gan fethu â newid y rhannau oedd angen eu newid ac, yn hytrach, mynd ati i wneud newidiadau diangen. Er enghraifft, yn y darn dan sylw, roedd yr awdur wedi pwysleisio'r ffaith bod y dull o dynnu lluniau yn un unig, llafurus ac anghysurus, a hynny drwy ailadrodd '*often*':

During that time he has stood in the dark, often alone, often in the cold, often for hours...

Y cyfieithiad DA oedd:

Yn ystod y cyfnod hwnnw mae wedi sefyll yn y tywyllwch, yn aml ar ei ben ei hun, yn aml yn yr oerfel, yn aml am oriau...

Dyma rai o'r addasiadau aflwyddiannus:

Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae wedi sefyll yn y tywyllwch, yn aml iawn ar ei ben ei hun yn yr oerfel am oriau...

Yn ystod y cyfnod hwnnw mae wedi sefyll yn y tywyllwch, yn aml ar ei ben ei hun, yn yr oerfel, am oriau...

Yn ystod y cyfnod hwnnw mae wedi sefyll yn y tywyllwch, a hynny'n aml ar ei ben ei hun, yn yr oerfel, ac am oriau maith...

Drwy beidio ag ailadrodd '*yn aml*' mae'r cyfieithiad yn colli'r naws y mae'r awdur yn ceisio ei chreu. Enghraifft arall o orolygu yw newid '*piazza*' i '*sgwâr*'. Mae hwn yn derm sy'n cyfeirio at le cyhoeddus penodol yn yr Eidal ac nid yw '*sgwâr*' yn llwyddo i gyfleu'r un ystyr na'r un naws.

Yn anffodus, wrth addasu'r darn DA, cyflwynodd rhai ymgeiswyr wallau newydd fel hyn:

...sy'n fwy cydnaws at deimlad nag at ffaith.

...o'i sŵn a'i anrhefn...

...and yn hytrach...

A mae hyn sy'n weddill...

...i raddau health...

...os fuoch chi yno.

Nid dyma sut y bydd rhan fwyaf ohonom...

I'w edrych arno...

Mae golygu a phrawfddarllen yn sgiliau hanfodol i gyfieithwyr ac mae'n amlwg bod angen i rai wella'r sgiliau hyn i allu mynd i'r afael â darnau DA yn effeithiol.

Wrth gloi, yr un yw'r cyngor o hyd, sef bod angen i ymgeiswyr neilltuo digon o amser ar ôl cyfieithu'r darnau i ddarllen drostynt â chrib mân i sicrhau bod pob elfen wedi'i chyfleu'n gywir ac yn naturiol yn y cyfieithiad. Gan fod sawl un yn agos at lwyddo y tro hwn, dyna'r ffordd o sicrhau y byddant yn cyrraedd y safon ofynnol y tro nesaf. Argymhellir hefyd fod ymgeiswyr yn ymarfer golygu darnau a gyfieithwyd drwy ddeallusrwydd artiffisial i sicrhau bod ganddynt lygad craff am yr hyn y mae angen ei newid a'r hyn sy'n dderbyniol fel y mae.

I gloi, hoffwn ddiolch i staff Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a'r Bwrdd Arholi Testun am fod mor barod eu cymorth.

Y Dirprwy Arholwr i'r Gymraeg

Mehefin 2026

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 3
Llwyddo: 1

Mae gan y tri ymgeisydd rinweddau amlwg, ac ni ddylai'r ffaith fod dau o'r tri wedi methu y tro hwn fod yn achos digalondid: mae'r ffin rhwng llwyddo a methu, yn enwedig ar y lefel Gyflawn, yn denau.

Her gymharol newydd i gyfieithwyr yw gwaith sy'n cael ei gyfieithu gan Ddeallusrwydd Artiffisial, ac mae'n dda o beth fod golygu gwaith o'r fath bellach yn rhan o'r prawf. Dangosodd y tri ymgeisydd eu bod yn atebol i ymgymryd â'r her; mae yma enghreifftiau o olygu crefftus. Ar y llaw arall, dylid cofio nad gofyn am gyfieithu o'r newydd a wneir, ac nid oes rhinwedd mewn newid er mwyn newid. Dyma a barodd roi dyfarniadau o fethu, sydd yn drueni gan y gwelwyd hefyd arwyddion o hyder wrth addasu'r darn fel ei fod yn rhedeg yn llyfnach a mwy naturiol.

Fel y dywedwyd mewn sylwadau blaenorol am geisiadau am aelodaeth Gyflawn, mae craffu llym yn digwydd ar y darn gwaith cartref, gan mai hollol deg yw disgwyl gwaith o'r radd flaenaf. Gellir esgusodi mân wallau oherwydd pwysau amser neu straen amodau arholiad, ond nid felly mewn darn lle mae gan yr ymgeisydd fwy o amser i fireinio a chaboli'r gwaith, a gofalu nad oes gwallau'n llithro drwy'r rhwyd.

Yr oedd yn bleser gweld yng ngwaith y tri ymgeisydd esiamplau o gyfieithu gwirioneddol ddawnus, o afael sicr ar gystrawen, a defnydd da o eirfa ac o idiomau'r iaith darged. Dylai hyn fod yn anogaeth i'r ymgeiswyr na lwyddodd y tro hwn ddal ati.

Darn 1	
<u>Enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus</u>	<u>Enghreifftiau o gyfieithu aflwyddiannus</u>
<i>This cannot continue, and an educational revolution is needed in Wales</i> (Nid oes modd parhau fel hyn, ac mae angen chwyldro addysgol yng Nghymru)	<i>literate folk</i> (...werin lythrernnog)
<i>cause for concern</i> (yn destun pryder)	<i>ranked about 34 in the world</i> (tua safle 34 yn y byd)
<i>buying and reading books for pleasure</i> (..fwynhau prynu a darllen llyfrau)	<i>going backwards instead of progressing</i> (symud yn ôl yn hytrach nag ymlaen)
<i>in crisis</i> (yn argyfyngus)	<i>policy</i> (unigol yn lle'r lluosog)

revived (ailgynnau)	
-------------------------------	--

Darn 2	
<u>Enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus</u>	<u>Enghreifftiau o gyfieithu aflwyddiannus</u>
the advent of steam engines (dyfodiad peiriannau ager) England and Wales (lle'r oedd DA wedi ei gyfieithu fel 'Wales and England') earning their keep / making ends meet (ennill eu tamaid) court proceedings (achos llys) transatlantic passenger trade (y fasnach cludo teithwyr ar draws Môr Iwerydd)	close to shore and avoid losing sight of land (eithaf agos at y lan gan osgoi unrhyw golli golwg ar y tir) the main fish caught (un o'r prif bysgod a ddelid) small boats were sailed or rowed to the fisheries in the morning and back in the evening (Cai cychod bach eu hwylio neu eu rhwyfo allan i'r pysgodfeydd yn y bore ac yn ôl gyda'r hwyr)

Gwaith Cartref	
<u>Enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus</u>	<u>Enghreifftiau o gyfieithu aflwyddiannus</u>
in those whom fate had dealt a poor hand (yn y rhai yr oedd ffawd yn eu herbyn) her bread and butter (yn ffon fara) many a respectable home (aml i gartref parchus)	all a mix of everything (yn gymysg oll i gyd) Eigra was interested in those that the fates conspired against (yn y rhai yr oedd ffawd yn eu herbyn) from all corners (o bedwar ban)

Y Dirprwy Arholwr i'r Saesneg
Mehefin 2026